# Cyngor  Cymuned Llandwrog
# Community Council

# Cofnodion Cyfarfod y Cyngor
# Council Minutes

## 21 Hydref 2019 / 21 October 2019

# Cyngor Cymuned Llandwrog Community Council

**Cofnodion y cyfarfod o Gyngor Cymuned Llandwrog a gynhaliwyd Nos Lun, 21 Hydref 2019 yn Canolfan Y Fron.**

***Minutes of the Full Council Meeting held Monday evening, 21 October 2019 at Canolfan Y Fron.***

**Yn bresennol / Present - 8 aelod / 8 members**

Yn cynrychioli Ward y Fron – Representing the Ward of Fron
Cyng. Gwyn Owen Jones;

Yn cynrychioli Ward Carmel – Representing the Ward of Carmel
Cyng. Bryn Williams; Cyng. Alan Patterson

Yn cynrychioli Ward Y Groeslon – Representing the Ward of Y Groeslon
Cyng. Alun Wyn Jones; Cyng. Gerwyn Owen; Cllr. Eddie Willcox; Cyng. David C Davies; Cyng. Hywel J Owen

Yn cynrychioli Ward Llandwrog a Dinas Dinlle - Representing the Ward of Llandwrog & Dinas Dinlle
Neb

Hefyd yn bresennol / Also in Attendence-

David Roberts, Rheolwr Gweinyddol a Chyllid y Cyngor / Council's Administrative & Finance Manager
Ann Llwyd Williams , Cyfieithydd / Translator

---

19-10-01 **1 Croeso'r Cadeirydd / *Chairman's Welcome***

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Alun Wyn Jones. Croesawodd Ann Llwyd Williams oedd yn cyfieithu'r drafodaeth.

The meeting was opened by the Chairman, Cllr.Alun Wyn Jones.He welcomed Ann Williams who was translating porceddings.
He proceeded on to the evening's business

---

19-10-02 **2 Ymddiheuriadau am Absenoldeb / *Apologies for Absences***

Cyng. Robert Jones; Cyng. Helen Hughes

---

19-10-03 **3 Datgan Buddiant Personol Neu Fuddiant sydd yn Rhagfarnu gan Aelodau ar y Unrhyw Eitem ar y Rhaglen - Adran 51 Deddf Llywodraeth Leol 2000 - *To Receive disclosures of Personal and Prejudicial Interest by Members on any Items on the Agenda - Section 51 Local Government Act 2000***

Cyng. David C Davies – 19-10-22 Eitem yn aelod o Pwyllgor Neuadd Groeslon
Cyng. Alun Wyn Jones – 19-10-22 Eitem yn aelod o Pwyllgor Neuadd Groeslon

---

19-10-04 **4 Derbyn Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol a gynhaliwyd 16 Medi 2019 fel Rhai Cywir / To Confirm the Minutes of the Previous Meeting held on the 16 September 2019 as a True Record**

Awdurdodwyd y Cadeirydd gan y Cyngor i arwyddo'r cofnodion fel rhai cywir.
The Council authorised the Chairman to sign the minutes as a true record.

19-10-05 **5 Materion yn Codi o'r Cofnodion / Matters Arising from the Minutes**

19-10-06 **Llwybr 36 Uwch Llifon - Carmel Hawl Tramwyo / Public Right of Way**

Trafodwyd y mater fel a nodwyd ar y rhaglen./ The matter was discussed as noted on the agenda

***Penderfynwyd derbyn y wybodaeth a monitro y sefyllfa.***
***Resolved –to accept the information and to monitor the situation.***

19-10-07 **Ffoes Brynrhos Y Groeslon / Brynrhos Ditch , Groeslon**

Trafodwyd y mater fel a nodwyd ar y rhaglen./ The matter was discussed as noted on the agenda

Adroddwyd gan y Rheolwr fod Ian Morgan o Cyngor Gwynedd wedi galanhau y ffoes sydd yn gyferbyn a ty cyntaf Cefn Dyffryn ar ei ddisgresiwn. Mater I trigolion Cae Sarny w clirio'r ffoes sydd yn rhedeg trwy eu gerddi.

***Penderfynwyd derbyn y wybodaeth a monitro y sefyllfa.***
***Resolved –to accept the information and to monitor the situation.***

19-10-08 **Jones Brothers - Cronfa Cymunedol / Community Fund - Ffordd Osgoi Bontnewydd By-pass**

Adroddwyd gan y Rhelwr ei fod wedi tarfod y mater gyda Bryn Jones o Gwmni Jones Brothers. Cafwyd gadarnhad gan Mr Jones and oes cronfa cymunedol ynghlwm ar datblygiad gan mai cynllun y Llywodraeth ydyw. Fodd bynnag mae'r Cwmni yn barod i gefnogi unrhyw brosiectau cymunedol trwy rhoi defnydd o weithwyr a peiriannau

***Penderfynwyd derbyn y wybodaeth.***
***Resolved –to accept the information .***

19-10-09 **Gwasanaeth Bws Cyhoeddus i Cae Sarn, Y Groeslon / Public Transport to Cae Sarn**

Trafodwyd y mater fel a nodwyd ar y rhaglen./ The matter was discussed as noted on the agenda

***Penderfynwyd derbyn y wybodaeth a monitro y sefyllfa.***
***Resolved –to accept the information and to monitor the situation.***

19-10-10 **Cae Chwarae Ysgol Bro Llifon / Bro Llifon School Playing Field**

Derbyniwyd adroddiad r lafa r gan AWJ a DCD oedd wedi mynychu cyfarfod gydag aelodau o Gorff Llywodraethu Ysgol Bro Llifon ar 1 Hydref 2019

Rheswm am y cyfarfod - Plant wedi ei gwahardd o'r cae ysgol ac o ganlyniad yn cael ei gorfodi i chwarae ar y stryd

Y cyfarfod 1 Hydref 2019 – yn gryno
Dim gwrthwynebiad gan y Corff Llywodraethu i blant y pentref ddefnyddio'r cae
Traul ar y cae sydd yn poeni y CLl. Pantiau yn dangos ger y goliau.
Sbwriel hefyd yn broblem. Grŵp Cymunedol am glirio'r sbwriel fel bydd yr angen yn codi.

Ysgol yn poeni am eu cyfrifoldebau. Clo wedi ei dorri ar y giât a wal wedi disgyn plant mawr y pentref yn medru defnyddio'r cae heb ganiatâd.
Nodwyd yn y cyfarfod gan AWJ a DCD y gellir gofyn i'r Cyngor Cymuned gyllido gwaith cynnal a chadw ar y cae os byddai hawl i blant y bentref cael defnydd ohono.
Cyfarfod pellach wedi ei drefnu 22 Hydref 2019 – yn dilyn cyfarfod llawn y Cyngor Cymuned mis Hydref.

DCD – o'r farn ei fod yn bwysig i'r Cyngor cael ei weld yn cefnogi defnydd cymunedol o'r cae – ond yn dallt pryderon yr ysgol

GO - adroddiad ar lafar fel aelod o Gorff Llywodraethu (yn cynrychioli'r Cyngor)
Yn dilyn cyfarfod diweddar o'r corff llywodraethu roedd yr ysgol wedi trafod sawl opsiwn ac ymysg y rheini oedd rhannu cyfrifoldeb gyda'r Cyngor Cymuned.
Adroddwyd fod wal wedi ei ddymchwel a bod Cyngor Gwynedd wedi rhoi addewid i osod ffens newydd o'r "sub-station".
Grwpiau yn gorfod gofyn i'r ysgol am hawl ymlaen llaw.
Clwb Pêl-droed Llandwrog yn ei ddefnyddio am ffi gydag amodau ynglŷn â chlirio sbwriel, tynnu netiau ar ôl y gemau ac yn y blaen.
Yr ysgol yn bryderus am faw cwn. Dywedwyd fod yna bobl yn mynd a'i cwn i'r cae i faeddu. Ofnir gwydrau ac ymddygiad gwrth cymdeithasol tebyg i'r hynny welwyd yn ardal Pen bonc y llynedd
Angen arwyddion o bwy sydd yn cael ei ddefnyddio.

HJO – o blaid i'r Cyngor cefnogi cynnal a chadw'r cae. Gwir ofyn am gae yn y pentref gan fod plant yn chwarae ar y stryd.

GOJ – yn symud i'r cyfeiriad iawn. Os oes angen i'r Cyngor gyfrannu yn ddigon teg i wneud hynny.

Yn gryno
Cafwyd cynnig (gan AP eilydd BW i'r Cyngor Cymuned gytuno mewn egwyddor i gyfrannu yn ariannol at wariant yr ysgol oherwydd traul ar y cae

Cafwyd gwelliant gan DCD fod y Cyngor yn fodlon cyfrannu fel daw'r angen at draul y cae pêl-droed

***Penderfynwyd - fod y Cyngor mewn egwyddor yn fodlon cyfrannu fel daw'r angen at draul y cae pêl-droed***

19-10-11 **Deddf yr Amgylchedd Cymru 2016 - Dyletswydd Cynghorau Chymuned a Thref o dan Adran 6 / Environment Wales Act 2016 - Community & Town Councils Duty under Section 6**

Sylwadau Aelodau

GO- yn awgrymu, oherwydd diffyg arweiniad, ac o ystyried yr amserlen, fod y Cyngor yn darparu gwybodaeth eithaf syml, lefel uchel, ar un tudalen yn amlygu fod y Cyngor am ystyried mesurau hybu bio-amrywiaeth yn y gymuned trwy ymrwymo i gynllun 3 mlynedd ac gan edrych ar polisi gwyrdd y Cyngor fyddai'nn cynnwys trefniadau torri gwair mynwentydd a meysydd chwarae sydyn gyfrifoldeb y Cyngor.

**Penderfynwyd derbyn y cynnig uchod**

**Resolved – to agree to the above proposal**

19-10-12 **6 Derbyn Cofnodion y Gweithgor Ymgysylltu a gynhaliwyd 25 Medi 2019 fel Rhai Cywir-** ***To Accept the Minutes of the Consultation Working Group held 25 September 2019, as a true record .***

Awdurdodwyd y Cadeirydd gan y Cyngor i arwyddo'r cofnodion fel rhai cywir.

The Council authorised the Chairman to sign the minutes as a true record.

19-10-13 **7 Materion yn Codi o'r Cofnodion / Matters Arising from the Minutes**

***Penderfynwyd ar y canlynol***

19-10-14 ***Facebook***

***i) Y Cyngor yn cymeradwyo'r syniad o greu 'linc' rhwng gwefan y Cyngor a'i dudalen Facebook; os daw hwnnw i fodolaeth.***
***ii) Y Cyngor yn cymeradwyo'r syniad o gael clo yn weithredol i atal 'posts' am gyfnod treial; os daw ei dudalen Facebook i fodolaeth.***
***iii) Y Cyngor yn cymeradwyo'r syniad o awdurdodi'r Rheolwr, a neb arall, i weinyddu a rheoli cynnwys ei dudalen Facebook; os daw hwnnw i fodolaeth.***
***iv) Y Cyngor i nodi gall tudalen Facebook a hwyrach Gwefan newydd greu llwyth gwaith***

19-10-15 ***Adroddiad Ymgysylltu***

***i) Y Cyngor i addasu adroddiad llawn Cwmni Celyn am yr ymgysylltu er mwyn llunio crynodeb gweithredol i'w gyhoeddi ar wefan y Cyngor a'i roi ar gael mewn mannau cyhoeddus addas.***

19-10-16 ***Adroddiad Blynyddol***

***i) Y Cyngor i gymeradwyo'r syniad o gyhoeddi adroddiad blynyddol (ar ffurf cylchlythyr) erbyn 31 Mai 2020 ar gyfer 2019/2020 gyda gofyn i'r Gweithgor sefydlu cynnwys a ffurf yr adroddiad erbyn cyfarfod llawn y Cyngor ym mis Chwefror a hynny fel bod costau am adroddiad ar gael i'r Cyngor erbyn ei gyfarfod llawn ym mis Mawrth***

***RECOMMENDATIONS OF THE WORKING GROUP.***
***Facebook***

***i) Council endorses the idea of creating a 'link' between the Council website and its Facebook page; if that comes into existence.***
***ii) Council endorses the idea of an active lock to prevent 'posts' for a trial period; if his Facebook page comes into existence.***
***iii) Council endorses the idea of authorizing the Manager, and no other, to administer and manage the content of his Facebook page; if that comes into existence.***
***iv) Council to note that a Facebook page and possibly a new Website can create workloads that have not been measured or evaluated at this time.***

***Consulting Report***

***i) The Council to modify the full Celyn engagement report into an executive summary to be published on the Council's website and made available in suitable public places.***

***Annual Report***

*i) Council approves the idea of publishing an annual report (in the form of a newsletter) by 31 May 2020 for 2019/2020 with the Working Group being asked to establish the content and format of the report by the full Council meeting in February 2020 so that report costs are available to the Council by its March 2020 meeting*

---

19-10-17 **9 Derbyn Cofnodion Pwyllgor Cyllid a Gynhaliwyd 2 Hydref 2019 To Confirm the Minutes of the Finance Committee on 2 October 2019 as a True Record.**

Awdurdodwyd y Cadeirydd gan y Cyngor i arwyddo'r cofnodion fel rhai cywir.

The Council authorised the Chairman to sign the minutes as a true record.

19-10-18 **10 Materion yn Codi o'r Cofnodion / Matters Arising from the Minutes**

19-10-19 **Cyllideb 2019-20 – Adolygiad Ail Chwarter – 2019-20 Budget Second Quarter Review**

***Penderfynwyd derbyn argymhellion y Pwyllgor fel a ganlyn -***

- ***i) Fod y Cyngor yn derbyn cywirdeb y balansau fel a nodwyd***
- ***ii) Fod y Cyngor yn nodi fod yna swm o £5,813.57 yn y gyllideb ar y pennawd "Datblygiadau" yn 2019/20***
- ***iii) Fod y Cyngor yn nodi fod yna tanwariannau posibl eraill o £1,883.67 yn y gyllideb ond yn cadw yr arian wrth gefn ar hyn o bryd.***
- ***iv) Fod y Cyngor yn ymrwymo £2,000 o'r gyllideb datblygiadau ar gyfer datblygu'r gwefan a £3,500 ar gyfer lloches bws Carmel yn unol a rhestr blaenoiraethau y Cyngor***

***Resolved – to accept the Committee's recommendations as follows-***

- ***i) That the Council accepts the balances as was noted***
- ***ii) That the Council notes that there is a balance of £5,813.57 in the "Development" heading in the 2019-20 budget.***
- ***iii) That the Council keeps the remaining potential underspend of £1,883.67 in the budget until the next budgetery review is held & to keep the balance uncommitted at this stage.***
- ***iv) That the Council accepts that developing the website is the priority & earmarks £2,000 for the purpose and earmarks £3,500 for the bus shelter in Carmel.***

19-10-20 **Blaenoriaeth Gwariant / Spending Priority**

***Penderfynwyd derbyn argymhellion y Pwyllgor fel a ganlyn -***

- ***i) Fod y Cyngor yn rhoi'r cyfle i bob aelod gynnwys unrhyw wariant sydd ei angen yn ei wardiau oddifewn i grym gwariant y Cyngor***
- ***ii) Fod y Cyngor , wedi derbyn y wybodaeth gan yr Aelodau, yn gofyn i'r Pwyllgorau i sgorio'r rhestr cyn sefydlu cyllideb 2020-21***
- ***iii) Fod trafodaeth ar lochesi bws yn cael ei gyfeirio at y Pwyllgor Mynwentydd ac Eiddo***

***Resolved – to accept the Committee's recommendations as follows-***

- ***i) That the Council gives all members the opportunity to include expenditure required within their wards within the spending powers that the Council has.***

ii) *That the Council , having received the above information fron Members, asks the Committees to score the list before establishing the 2020-21 budget.*
iii) *That discussion on the bus shelters is referred to the Cemeteries & Property Committee*

19-10-21 **Cyllideb 2020-21 – Cam Cyntaf / 2020-21 Budget – Stage 1**

***Penderfynwyd derbyn argymhellion y Pwyllgor fel a ganlyn -.***

i) *Fod y Cyngor yn derbyn fod y Pwyllgor Cyllid wedi cychwyn adnabod gwariant sydd ei angen gan y Cyngor ar gyfer 2020-21.*
ii) *Fod y Cyngor yn derbynmai dim ond £620 sydd yn y gyllideb yn barhaol ar gyfer "Datblygiadau" ac y bydd angen llunio cynllun gwariant manwl ar gyfer 2020-21 cyn argymell y paresept derfynol yn Ionawr 2020*

.

***Committee Recommendations*.**

i) *That the Council accepts that the Finance Committee has begun to identify expenditure required by the Council for 2020-21.*
ii) *That the Council accepts that there is only £620 permanent in the "Development" budget heading and that a detailed spending plan for 2020-21 will need to be drawn up before recommending the final parcel in January 2020*

19-10-22 **Grŵp Diffribiliwr Pentref Y Groeslon – Cais Arbennig / Groeslon Defibrillator Group – Special Request**

***Penderfynwyd - fod y Cyngor yn cyfeirio y mater yn ôl i'r Pwyllgor Cyllid i ystyried pob gohebiaeth ynglŷn y mater gan ddisgwyl y bydd aelodau y Grŵp wedi ystyried y mater yn unol a'r arweiniad gan Paul Claydon***

***Resolved - that the Council refers the matter back to the Finance Committee to consider all communications received regarding the matter & that members of the Group considers the advice given by Paul Claydon***

19-10-23 **Rheolau Ariannol / Financial Regulations -**

***Penderfynwyd derbyn argymhelliad y Pwyllgor fel a ganlyn -***
***– fod y Cyngor yn addasu cymal 4.1 i gynyddu y gwariant ar eitemau refeniw i fyny at £1,000 ar gyfer y dosbarth hwnnw o wariant yn y gyllideb a gymeradwywyd a thrwy hynny derbyn nad oes angen tri pris ar unrhyw wariant o dan £1,000***

***Resolved – to accept the Committee's recommendation as follows - that the Council modifies clause 4.1 to increase expenditure on revenue items by up to £ 1,000 for that class of expenditure in the approved budget and therefore accepts that three estimates is not requited for expenditure under £1,000***

**RHEOLI Y GYLLIDEB AC AWDURDOD I WARIO**

4.1. Gellir awdurdodi gwariant ar eitemau refeniw i fyny at ~~**£500**~~ **£1,000** ar gyfer y dosbarth hwnnw o wariant yn y gyllideb a gymeradwywyd. Pennir yr awdurdod hwn gan y Clerc, mewn cydweithrediad â Chadeirydd neu Is-Gadeirydd y Cyngor. Rhaid i awdurdod o'r fath gael ei dystio gan Gofnod neu slip awdurdodi a lofnodwyd yn briodol gan y Clerc, a lle y mae angen, gan y Cadeirydd neu`r Is-Gadeirydd.

**BUDGETARY CONTROL AND AUTHORITY TO SPEND**

4.1 Expenditure on revenue items may be authorised up to ~~**£500**~~ **£1,000** for amounts included for that class of expenditure in the approved budget. This authority is provided to the Clerk, in conjunction with Chairman or Vice Chairman of Council. Such authority is to be evidenced by a Minute or by an authorisation slip duly signed by the Clerk, and where necessary also by the Chairman or Vice Chairman.

19-10-24 **Talu Credydwyr Syth o'r Banc / Direct To Bank Creditor Payments**

***Penderfynwyd derbyn argymhelliad y Pwyllgor fel a ganlyn - fod y Cyngor yn derbyn y cais mewn egwyddor gan ofyn i'r Pwyllgor Cyllid edrych ar y mater cyn dod ac argymhelliad terfynol i'r Cyngor.***

***Resolved – to accept the Committee's recommendation as follows - that the Council accepts the application in principle and asks the Finance Committee to look into the matter before bringing a final recommendation to Council.***

---

19-10-25 **11 Derbyn Cofnodion Pwyllgor Mynwentydd ac Asedau y Cyngor 16 Hydref 2019 To Confirm the Minutes of the Cemeteries & Assets Committee held 16 October 2019 as a True Record.**

Awdurdodwyd y Cadeirydd gan y Cyngor i arwyddo'r cofnodion fel rhai cywir.

The Council authorised the Chairman to sign the minutes as a true record.

19-10-26 **12 Materion yn Codi o'r Cofnodion / Matters Arising from the Minutes**

19-10-27 **Mynwentydd – Materion Yn Codi / Cemeteries - Matters Arising**

***Penderfynwyd derbyn argymhellion y Pwyllgor fel a ganlyn -***

- ***i) Fod y Cyngor yn cytuno i dderbyn pris Gwalch ar gyfer y gwaith yn mynwentydd Bryn'rodyn a Carmel***
- ***ii) Fod y Cyngor cytuno i'r gwaith yn Bryn'rodyn i grafu y chwyn ar y llwybrau llechi a clirio y coed o'r beddau***
- ***iii) Fod y Cyngor yn gofyn i'r Pwyllgor hwn i adolygu trefniadau gwagio y bniau ac adrodd yn ol yn Ionawr 2020***
- ***iv) Fod y Cyngor yn gwrthdroi ei benderfyniad I gadw giat mawr fynwenyt newydd Bryn'rodyn ar agor ac yn gweithredu yn unol a'r trefniadau blaenorol.***

***Resolved – to accept the Committee's recommendations as follows-***

- ***i) That the Council agrees to accept the quote from Gwalch the works at Bryn'rodyn and Carmel***
- ***ii) That the Council agrees to work at Bryn'rodyn to scrape the weeds on the slate tracks and clear the trees from the graves***
- ***iii) That the Council requests this Committee to review the emptying of the bins and report back in January 2020***
- ***iv) That the Council reverses its decision to keep the large hill gate of Bryn'rodyn open and operate in accordance with the previous arrangements.***

19-10-28 **Profion Diogelwch Cerrig Beddi – Cemetery Headstones Safety Checks**

***Penderfynwyd derbyn argymhellion y Pwyllgor fel a ganlyn -***

***i) Fod y Cyngor yn cytuno i gynnal profion o gerrig beddi fynwent Bryn'rodyn yn Ionawr 2020 ac i hysbysebu yn y drefn arferol***

***ii) Fod y Cyngor yn cynnwys arolygiad o'r gwaith coed sydd wedi ei osod ar gerrig beddi a oedd yn rhydd ym mhrofion blaenorol***

***Resolved – to accept the Committee's recommendations as follows-***

***i) For the Council to agree to undertake the inspection in January 2020 and to issue public notices in the usual manner***

***ii) For the Council to include inspection of the wooden stakes that were fixed in previous examinations on loose headstones***

19-10-29 **Blaenoriaeth Gwariant 2020-21 Spending Priority**

Dosbarthwyd rhestr Blaenoriaeth Gwariant diweddaraf i'r aelodau. '

***Penderfynwyd derbyn argymhellion y Pwyllgor fel a ganlyn -***

***i) Fod y Cyngor yn derbyn fod gwaith adfer llwybrau'r mynwentydd yn flaenoriaeth categori 1***

***ii) Fod y Cyngor yn derbyn fod lloches bws Dinas Dinlle yn flaenoriaeth categori 1 yn 2020-21 ond yn debygol o fod yn gynllun fydd angen ei ariannu dros ddwy flwyddyn ariannol***

***iii) Fod y Cyngor yn nodi fod y Pwyllgor hwn yn cytuno gydag argymhelliad y Pwyllgor Cyllid mai datblygu gwefan y Cyngor a lloches bws Carmel yw'r flaenoriaeth eleni***

***Resolved – to accept the Committee's recommendations as follows-***

***i) That the Council accepts that the cemetery path restoration work is a category 1 priority***

***ii) That the Council accepts that Dinas Dinlle bus shelter is a category 1 priority in 2020-21 but is likely to be a scheme that will need to be funded over two financial years***

***iii) That the Council notes that this Committee agrees with the Finance Committee's recommendation that the development of the Council's website and the Carmel bus shelter is the priority this year***

19-10-30 **Lloches Bws Carmel Bus Shelter**

***Penderfynwyd derbyn argymhellion y Pwyllgor fel a ganlyn - Fod y Cyngor yn derbyn y drefn uchodl ar gyfer ail-leoli lloches bws Gardd y Coleg.***

***Resolved – to accept the Committee's recommendations as follows- - That the Council accepts the above procedure for the relocation of the College Garden bus shelter.***

19-10-31 **Llwybrau Cyhoeddus – Public Footpaths**

.

***Penderfynwyd derbyn argymhellion y Pwyllgor fel a ganlyn -***

***i) Fod y Cyngor yn cysylltu gyda Swyddog Tramwyo Cyngor Gwyedd i gynnal archwiliad o'r llwybr***

***ii) Fod y Cyngor yn annog i pob aelod fod yn ymwybodol o 'r map sydd ar gwefan Cyngor Gwynedd i adnabod yr holl lwybrau oddi few neu wardiau***

***iii) Resolved – to accept the Committee's recommendations as follows***

***Resolved – to accept the Committee's recommendations as follows-***

*i) That the Council liaises with the Public Right of Way Officer in Gwynedd Council to undertake an audit of the path*

*ii) That the Council encourages all members to be aware of the map on Gwynedd Council's website to identify all paths within their wards*

19-10-32 **Ffioedd Claddu – Burial Fees**

Dosbarthwyd taflen gan y Rheolwr o'r ffioedd cyfredol gan ychwanegu 1.5% (CPI) ar gyfer 2020-21 yn unol â'r cynnydd yn y gwariant.

***Penderfynwyd derbyn argymhellion y Pwyllgor fel a ganlyn - fod y Cyngor yn penderfynu mabwysiadu'r ffioedd fel y nodwyd ar gyfer 2020-21***

***Resolved – to accept the Committee's recommendations as follows- that the Council resolves to adopt the fees as set out for 2020-21***

- Ffi Prydles Hawl Claddu Cyfyngedig o £181 i £200 tu fewn i'r gymuned ac o £543 i £600 tu allan i'r gymuned – cynnydd o 10.5%
- Ffi Prydles Hawl Claddu Llwch Cyfyngedig o £144 i £160 tu fewn i'r gymuned ac o £432 i £480 tu allan i'r gymuned – cynnydd o 11.1%
- Gweddill y ffioedd - cynyddu 1.5% yn unig

| **Tu Fewn i'r Gymuned** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Cynnydd 1.5%** | **Rowndio** | **Addasiad** | **Argymhelliad** | **cynydd £** | **cynydd %** |
| Ffi Prydles Hawl Claddu Cyfyngedig | £178 | 180.67 | £181 | £19 | £200 | £22 | 12.36% |
| Ffi Claddu | £142 | 144.13 | £144 | £0 | £144 | £2 | 1.41% |
| Ffi Prydles Claddu Llwch | £142 | 144.13 | £144 | £16 | £160 | £18 | 12.68% |
| Ffi Hawl Claddu Llwch | £142 | 144.13 | £144 | £0 | £144 | £2 | 1.41% |
| Plentyn Marwanedig | dim | | | | £0 | | |
| Ffi Ymchwil | £46 | 46.69 | £47 | £0 | £47 | £1 | 2.17% |

| **Tu Allan i'r Gymuned** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Ffi Presennol 2018-19** | | | **Addasiad** | **Argymhelliad** | **Argymhelliad** | **Argymhelliad** |
| Ffi Prydles Hawl Claddu Cyfyngedig | £534 | x3 tu fewn | | £57 | £600 | £66 | £0 |
| Ffi Claddu | £426 | x3 tu fewn | | £0 | £432 | £6 | £0 |
| Ffi Prydles Claddu Llwch | £426 | x3 tu fewn | | £48 | £480 | £54 | £0 |
| Ffi Hawl Claddu Llwch | £142 | x1 tu fewn | | £0 | £144 | £2 | £0 |
| Plentyn Marwanedig | dim | | | dim | dim | dim | dim |
| Ffi Ymchwil | £46 | £47 | | £46 | £47 | £0 | £46 |

19-10-33 **13 Archwilio Cyfrifon 2018-19 / Audit of Accounts 2018-19 Datganiad Blynyddol -)**

**Adroddiad yr Archwilwr Allanol / External Auditors Report**

Derbyniwyd adroddiad yr Archwilwr Allanol a nodwyd ei sylwadau.

Diolchwyd i'r Rheolwr am ei waith yn darparu y wybodaeth berthnasol I'r Archwilydd Allanol

***Penderfynwyd – derbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys***
***Resolved – to accept the report & to note the auditors observations***

## Gohebiaeth / Communiaction

19-10-34 **14 Llywodraeth Cymru – Cymru yn 2040 - Ymgynghoriad - Fframwaith Datblygu Cenedlaethol**
**Welsh Government – Wales in 2040 - National Development Framework**

***Penderfynwyd – derbyn y wybodaeth heb sylwadau***
***Resolved – to accept the information with no observations***

19-10-35 **15 Parc Cenedlaethol Eryri - Cysylltu Comin a Chymuned Uwch Gwyrfai**
**Snowdonia National Park – Uwch Gwyrfai Common and Community Links Project**

Trafodwyd y mater fel nodwyd yn y rhaglen / The matter was discussed as noted on the agenda

Adroddwyd gan Cadeirydd y Cyngor ei fod wedi cysylltu gyda'r Swyddog yn y Parc yn datgan na fydd cynrychiolaeth o'r Cyngor yn cymeryd rhan yn y broses.

Sylwadau Aelodau – EW inept management decisions by the Graziers & SNP.No plan B. No cosideration in locating the grid by the old hut (Cwt Shave). One grazir has announced that he will still graze his sheep within the village which makes the 2 nd gris pointless

***Penderfynwyd – cefnogi gweithred y Cadeirydd***
***Resolved – to support the action taken by the Chairman***

19-10-36 **16 Un Llais Cymru / One Voice Wales**
**Cynhadledd Blynyddol 2019 / Annual Conference 2019**

**Cynhadledd Un Llais Cymru – Pontrhydfendigaid Dydd Sadwrn 5 Hydref 2019**
**Pwyllgor Ardal Arfon Dwyfor Un Lais Cymru – Pwllheli 25 Medi 2019**

Trafodwyd y mater fel nodwyd yn y rhaglen / The matter was discussed as noted on the agenda

***Penderfynwyd – i derbyn a nodi'r wybodaeth***
***Resolved – to receive & note the information***

19-10-37 **17 Un Llais Cymru / One Voice Wales**
**Cynhadledd Blynyddol 2019 / Annual Conference 2019**

Trafodwyd y matter fel nodwyd yn y rhaglen / The matter was discussed as noted on the agenda

Adroddwyd fod y Rheolwr yn mynychu'r gynhadledd a gynhelir 5 Hydref 2019
***Penderfynwyd – i nodi'r wybodaeth***

***Resolved – to note the information***

19-10-38 **18 Grwp Cynefin - Strategaeth Bro Lleu**

Trafodwyd y matter fel nodwyd yn y rhaglen / The matter was discussed as noted on the agenda

**Bydd Cyng. Eddie Willcox a Cyng Hywel J Owen yn mynychu cyfarfod o'r Grwp a gynhelir 23 Hydref**
***Cllr Eddie Willcox and Cllr Hywel J Owen will attend the meeting of the Group to be held on 23 October***

## *Materion Cynllunio / Planning Matters*

19-10-39 **19 Ceisiadau Cynllunio / Planning Applications - Hydref 2019 / October 2019**

Manylion llawn y ceisiadau cynllunio
https://diogel.gwynedd.llyw.cymru/swiftlg/apas/run/wphappcriteria.display?langid=2

Full detais of the Planning Applications
https://diogel.gwynedd.llyw.cymru/swiftlg/apas/run/wphappcriteria.display?langid=1

**Ceisiadau Hydref 2019 - Applications for October 2019**

Cais Rhif / Application Number - **C19/0928/17/LL**
Cyfeiriad / Address - **Y Garreg Fawr,Y Fron. LL54 7BT**
Bwriad / Proposal - **Estyniad unlaaer ochr / Single storey side exrension.**

**Penderfyniad y Cyngor – gwrthwynebu ar y sail nad yw y datblygiad yn gweddu gyda'r bwthyn na'r ardal.**

**Council Decision - to object on the grounds that the development is out of keeping with the cottage & the area.**

Cais Rhif / Application Number - **C19/0839/17/LL**
Cyfeiriad / Address - **Hen Ysgol Carmel. LL54 7AA**
Bwriad / Proposal - **Cais ol -weithredol am newid defnydd i annedd preswyl/ Retrospective application for the change of use of former school to residential dwelling extension.**

**Penderfyniad y Cyngor – dim sylwadau.**
**Council Decision – no observations**

## Materion Ariannol / Financial Matters

19-10-40 **20 Derbyniadau Wedi ei Dderbyn Medi 2019 – Income Received September 2019**

| **Manylion / Details** | **Cyfanswm** |
|---|---|
| Ffioedd Claddu – Burial Fees | £462.00 |
| HMRC – Ad-daliad TAW | £673.73 |

***Penderfynwyd derbyn y wybodaeth .***
***Resolved to accept the information***

19-10-41 **21 Taliadau sydd angen eu hawdurdodi gan y Cyngor - Payments to be approved**

| **Manylion / Details** | **Swm heb TAW Amount excluding VAT** | **Cyfanswm y Taliad- Total Payment** | **Rhif Siec/ Cheque Number** |
|---|---|---|---|
| Cyflog y Rheolwr – Hydref 2019 – Managers Salary October 2019 | | | Uniongyrchol/Direct |
| HMRC-Treth Incwm Hydref 2019 – Income Tax October 2019 | | | Uniongyrchol/Direct |
| HMRC – Yswiriant Gwladol y Rheolwr Hydref/ October 2019 | | | Uniongyrchol/Direct |
| NEST – Pensiwn y Rheolwr – Cyfraniad y Cyngor Hydref/October 2019 | | | Uniongyrchol/Direct |
| Lwfans y Rheolwr – Hydref 2019 – Managers Allowance October 2019 | | | Uniongyrchol/Direct |
| Antur Fachwen / Fainc Cae Chwarae Y Fron Playing Field | £308.33 | £370.00 | 101924 |
| Cyfiethu / Translation Costs – Hydref / October | £100.00 | £100.00 | 101925 |
| Trwydded Office 365 / Office 365 Licence | £49.99 | £59.99 | 101926 |

***Penderfynwyd derbyn y wybodaeth a rhoddwyd yr awdurdod i'r Rheolwr i ryddhau'r oll daliadau.***
***Resolved to accept the information and to authorise the Manager to release all the payments***

---

19-10-42 **22 Materion i'w Codi gan aelodau i gyfarfod nesaf o'r Cyngor llawn 18 Tachwedd 2019 / matters to be raised by Members for the Next Meeting 18 November 2019**

---

19-10-43 **23 Dyddiadau Cyfarfod Nesaf / *Dates of Next Meetings***

Cyfarfod / Meeting – **Cyfarfod o'r Cyngor Llawn Tachwedd / November Full Council**
Dyddiad / Date - Dydd Llun 18 Tachwedd 2019 / Monday 18 November 2019
Amser / Time - 7.30 yr hwyr / pm
Lleoliad / Venue Neuadd – Neuadd Y Groeslon

Cyfarfod / Meeting – **Pwyllgor Cyllid / Finance Committee**
Pwrpas / Purpose – Asesiad Risg / Risk Assesment
Dyddiad / Date - i'w gadarnhau / to be confirmed
Amser / Time - i'w gadarnhau / to be confirmed
Lleoliad / Venue Neuadd – i'w gadarnhau / to be confirmed

---

**Daeth y cyfarfod i ben am 9:05 yr hwyr / The meeting ended 9.05 pm**

**Cafwyd y Cofnodion yn rhai cywir – The Minutes were recorded as accurate**

| | |
|---|---|
| **Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor**<br><br>**Signed by the Chairman** | |
| **Dyddiad - Date** | |